# JONES, THOMAS JERMAN (1833 - 1890), cenhadwr am 20 mlynedd dros y Methodistiaid Calfinaidd ym Mryniau Khassia, Assam, India;



**Enw:** Thomas Jerman Jones
**Dyddiad geni:** 1833
**Dyddiad marw:** 1890
**Priod:** Jones (née Thomas)
**Rhiant:** Jane Jones (née Jerman)
**Rhiant:** John Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cenhadwr am 20 mlynedd dros y Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Evan Lewis Evans

Ganwyd 10 Awst 1833 yn Llangristiolus, sir Fôn, mab John Jones a Jane (Jerman). Bu'n gweithio ar y fferm i gychwyn ac wedyn fel chwarelwr yn Bethesda, Sir Gaernarfon; cafodd ddamwain yn y chwarel a bu am gyfnod heb fedru gweithio. Bu yn ysgol 'Eben Fardd,' Clynnog, ac wedyn yng Ngholeg y Bala, 1860-3. Wedi ei ordeinio bu'n gweinidogaethu i Gymry yng ngogledd Lloegr, 1863-9. Priododd - Thomas, yr Orsedd, sir Fôn. Hwyliodd i'r India yn 1869 a chyrraedd Bryniau Khassia erbyn Mawrth 1870. Bu'n gweinidogaethu yn Jowai am gyfnod. Symudodd i Shillong yn 1875; bu ei wasanaeth yno yn nodedig o werthfawr yn ystod ymweliad y colera yn 1879. Troes yn ôl i Gymru er adennill ei iechyd a bu farw 14 Ebrill 1890, ar y llong heb fod ymhell o Dungeness; claddwyd ef ym mynwent Smithdown Road, Lerpwl, 18 Ebrill.

## Awdur

**Y Parchedig Ddr Evan Lewis Evans**, (1898 - 1978)

## Ffynonellau

R. J. Williams, *Cofiant y Parch. Thomas Jerman Jones* (Caernarfon 1911), 1911

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 103537026

Wikidata: Q20734472

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu